OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 325 (Cy.38)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *12 Chwefror 2002* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 2(4), (7)(f) ac (8), 22(1), (2)(a) i (d), (f) i (j), (5)(a) a (7)(a) i (h), (j) a (k), 25(1), 34(1), 35 a 118(5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau sydd yn ei farn ef yn briodol(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau'n arferadwy gan y Gweinidog priodol, a ddiffinnir yn adran 121(1), mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, fel yr Ysgrifennydd Gwladol, ac mewn perthynas â Chymru, fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Diffinnir ystyr "prescribed" a "regulations" yn adran 121(1) o'r Ddeddf.

(**2**) *Gweler* adran 22(9) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 am y gofyn i ymgynghori.